Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 18 Chwefror 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Alan James |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Huw Rees, Swyddog Arweiniol – Cefn Gwlad a Threftadaeth |
| **Testun** | Datganiad Interim Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y Darpar Barc Cenedlaethol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Trafod a chymeradwyo datganiad interim gan Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r cynnig i greu Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd ddwyrain Cymru fel rhan o ymgynghoriad presennol Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad i gymeradwyo'r datganiad interim drafft (Atodiad 1).

2.2. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn am ddatganiad interim gan bob Awdurdod Lleol y gallai'r darpar Barc Cenedlaethol effeithio arno fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r datganiad interim fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.

3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo hwn fel ymateb yr Awdurdod i ymgynghoriad presennol Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r darpar Barc Cenedlaethol.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei Raglen Lywodraethu, wedi comisiynu Cyfoeth Naturiol Cymru i asesu'r achos o blaid creu Parc Cenedlaethol newydd ar sail Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (a elwid gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu 'AHNE'). Dechreuodd y rhaglen yn 2022 a disgwylir iddi ddod i ben yn 2026.

4.2 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n arwain trefn fanwl i ganfod i ba raddau y mae'n 'ddymunol i ddynodi'. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi'r ffiniau a ffefrir (yr Ardal Ymgeisiol) a gwybodaeth ategol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Y bwriad wrth ymgynghori â'r cyhoedd yw rhoi cyfle i amrywiaeth helaeth o bobl gymryd rhan a chyfrannu at y drafodaeth.

4.3 Fel rhan o'r ymgynghoriad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn i Gyngor Sir Ddinbych am 'farn' interim ynglŷn â'r cynnig. Mae swyddogion wedi llunio'r datganiad interim yn Atodiad 1 ar sail yr amryw ymgyngoriadau mewnol a gynhaliwyd eisoes (gweithdai aelodau a Briffiau i'r Cabinet) fel y'u nodir yn yr adran Ymgynghori o'r adroddiad hwn, cyfarfodydd ag amryw adrannau y gallai'r cynnig effeithio arnynt a thrafodaethau eraill gydol y sefydliad. Hwn yw'r syniad gorau posib o farn y sefydliad ynglŷn â'r cynnig, ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

**5.** Efallai y bydd yn fuddiol i aelodau'r Cabinet wybod sut y mae'r awdurdodau lleol eraill wedi ymateb. Nid yw *Cyngor Sir Powys* o blaid y cynnig i ddynodi'r tir. Mae'n dweud na ddylid dynodi'r Parc ac y dylid hepgor Powys o'r broses. Mae *Cyngor Sir y Fflint* wedi dweud nad yw'n cefnogi'r dynodiad newydd ar hyn o bryd. Mae'r farn honno'n seiliedig ar ddiffyg gwybodaeth, costau a chyllid yn y tymor byr a'r tymor hir, biwrocratiaeth, amseru a'r effaith ar y drefn Gynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol.

# 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

6.1. Yn y cam hwn o'r drefn ymgynghori, ni chaiff y datganiad interim ynghylch y darpar Barc Cenedlaethol unrhyw effaith ar y Cynllun Corfforaethol. Fel y nodir yn adran 4 o'r adroddiad hwn, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am y gwaith o benderfynu ynghylch y cynnig dan sylw. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud

eto ac felly ni fedr yr Awdurdod farnu beth fydd ei gyfraniad at y Cynllun Corfforaethol.

## 7. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1. Un o'r rhesymau pennaf dros gynnig yr ymateb a nodir yn y datganiad interim yw diffyg eglurder ynglŷn â chostau a'r effaith ar wasanaethau eraill. Hyd oni ddarperir ychwaneg o wybodaeth, ni all yr Awdurdod ddod i farn bendant ynghylch y cynnig i greu Parc Cenedlaethol.

7.2. Mae'r datganiad interim yn egluro bod yr Awdurdod o'r farn y bydd costau'n deillio o'r cynnig ac felly'n gofyn am ychwaneg o wybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

7.3. Mae'r datganiad interim hefyd yn nodi bod yr Awdurdod o'r farn y bydd effaith ar wasanaethau eraill, yn enwedig Cynllunio, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Gofynnwyd am ychwaneg o wybodaeth ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r darpar Barc Cenedlaethol er mwyn magu dealltwriaeth ohonynt.

## 8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

8.1. Nid oes modd cynnal Asesiad yn y cam hwn oherwydd prinder gwybodaeth.

8.2. Mae'n werth nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n bwriadu cyflawni mwy o waith. Bydd yn asesu effaith y cynnig ar y Gymraeg, yr Economi, Cydraddoldeb ac Iechyd. Gwneir dadansoddiad o'r buddion hefyd.

## 9. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

9.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyfranogi o'r broses y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i sefydlu o'r cychwyn cyntaf. Mae swyddogion yn cynrychioli'r Awdurdod ar y gweithgorau Ymgynghorol a Thechnegol. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i drafod yr ardal chwilio ac amryw ddewisiadau a gynigiwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

9.2. Yn y ddwy flynedd diwethaf, bu Cyfoeth Naturiol Cymru'n bresennol mewn dau o sesiynau Briffio'r Cabinet. Mae hefyd wedi arwain dau o weithdai ag aelodau. Cynhaliwyd yr un cyntaf yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus (tua hydref 2023) pan gyhoeddwyd yr ardal chwilio, ac fe awgrymwyd meysydd i'w hychwanegu neu'u hepgor. Cynhaliwyd yr ail weithdy ychydig cyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus nesaf (Tachwedd 2024) er mwyn egluro'r sail resymegol ar gyfer y ffiniau a gyhoeddwyd (yr Ardal Ymgeisiol), rhoi crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd a sôn am y camau nesaf.

9.3. Rhoddwyd gwybod i Aelodau a Swyddogion o'r amryw ddigwyddiadau ar-lein a sesiynau galw heibio a gynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf drwy e-byst penodol ac fe'u hanogwyd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad presennol.

9.4. Bu'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn trafod drafft o'r datganiad interim ym mis Ionawr 2025 a'r Cabinet hefyd mewn sesiwn Briffio ar 3 Chwefror 2025.

## 10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

10.1. Mae'r datganiad interim (Atodiad 1) yn holi ynghylch costau'r broses a'r modd y sicrheir cyllid yn y dyfodol os dynodir y tir yn Barc Cenedlaethol.

10.2. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Awdurdod wrth anfon y datganiad interim i Gyfoeth Naturiol Cymru, heblaw am amser Swyddogion ac Aelodau.

## 11. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

11.1. Mae'r datganiad interim yn crybwyll fod diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r cynnig hwn hyd yn hyn. Mae'n anodd arfarnu'r risgiau i'r Awdurdod sy'n deillio o'r cynnig i greu Parc Cenedlaethol nes y darperir ychwaneg o wybodaeth a rhywfaint o eglurder ynghylch y pryderon a nodwyd yn y datganiad interim.

11.2. Nid oes unrhyw risg yn deillio o anfon y datganiad interim i Gyfoeth Naturiol Cymru.

## 12. Pŵer i wneud y penderfyniad

12.1. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sy’n gyfrifol am bennu ymatebion i ddogfennau ymgynghori sy’n debygol o gael goblygiadau ar draws yr Awdurdod.